## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Aelodau'r Pwyllgor** | **(i)** |
| **Crynodeb** | **2** |
| **1.Cyflwyniad** | **4** |
| **2.Egwyddor y Gorchymyn Arfaethedig** | **6** |
| **3.Craffu ar y Gorchymyn Arfaethedig** | |
| -Amrywiad yn Asesiadau Gofalwyr a'r Gwasanaethau a Ddarperir | 11 |
| -Gwaith Amlasiantaethol | 13 |
| **4.Diffiniadau a Therminoleg** | **16** |
| -Gofalwr | 16 |
| -Rheolaidd a Sylweddol | 17 |
| -Plentyn â Nam Corfforol neu Feddyliol | 21 |
| -Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol | 23 |
| **5.Materion Eraill** | **28** |

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Cynnig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009 ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynglŷn â Gofalwyr a Memorandwm Esboniadol |
| Atodiad 2 | Llythyr yr Ymgynghoriad |
| Atodiad 3 | Rhestr o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad |
| Atodiad 4 | Rhestr o'r Dystiolaeth Lafar |
| Atodiad 5 | Llythyr gan Gwenda Thomas AC, Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, 5 Mawrth 2009 |

**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif. 3**

**Aelodau'r Pwyllgor**

| | | |
|---|---|---|
| Peter Black | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Gorllewin De Cymru |
| Alun Cairns (9/12/08 - 3/03/09) | Plaid Geidwadol Cymru | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Llafur | Cwm Cynon |
| William Graham (3/03/09 - ) | Plaid Geidwadol Cymru | Dwyrain De Cymru |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Helen Mary Jones | Plaid Cymru | Llanelli |
| Dai Lloyd (Cadeirydd) | Plaid Cymru | Gorllewin De Cymru |

## Crynodeb

Casgliadau ac argymhellion Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 yw fel a ganlyn:

1) Cytunwn, mewn egwyddor, y dylai cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes a ddarperir gan Fater 15.9 ei roi i'r Cynulliad.

2) Ar ôl ystyried y pryderon y cyfeiriwyd atynt gan y rhai a roddodd dystiolaeth ac ystyried sicrwydd y Dirprwy Weinidog, rydym yn fodlon y bydd y Gorchymyn arfaethedig, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn darparu fframwaith ar gyfer sicrhau mwy o gysondeb a chaniatáu i fynd i'r afael ag amrywiadau afresymol mewn asesiadau gofalwyr a gwasanaethau a ddarperir. Nodwn hefyd sylwadau'r Dirprwy Weinidog o ran y cydbwysedd rhwng fframweithiau cenedlaethol a phenderfyniadau lleol wrth fynd i'r afael ag anghenion lleol. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y materion hyn yn faterion yr ymgynghorir arnynt â rhanddeiliaid o ran trafodaethau yn y dyfodol a fydd yn ystyried Mesurau arfaethedig, rheoliadau drafft a chanllawiau.

3) Nodir cryfder y dystiolaeth sy'n cefnogi'r angen i wella'r broses o weithio mewn partneriaeth, yn arbennig o ran darparu cymorth, cefnogaeth a chyngor i ofalwyr. Cawsom ein sicrhau gan dystiolaeth y Dirprwy Weinidog y bydd cymhwysedd deddfwriaethol yn galluogi'r gwelliannau angenrheidiol i gael eu cyflwyno.

4) Nodir bod rhai tystion wedi awgrymu cynnwys cyfeiriad penodol at ofalwyr ifanc yn niffiniad y Gorchymyn arfaethedig. Fodd bynnag, mae eglurhad y Dirprwy Weinidog fod ehangder y diffiniad presennol yn sicrhau y caiff gofalwyr o dan 18 oed eu cynnwys o fewn y Gorchymyn arfaethedig yn ein bodloni. Teimlwn hefyd fod tystiolaeth y Dirprwy Weinidog yn adlewyrchiad o fwriad Mesurau arfaethedig yn y dyfodol i sicrhau y caiff pob gofalwr ei gynnwys yn llawn.

5) Nodir y pryderon a gododd rhai tystion ynglŷn â chynnwys y termau 'rheolaidd' a 'sylweddol'. Rydym yn fodlon â'r defnydd o'r term 'sylweddol', gyda sicrwydd y Dirprwy Weinidog y caiff pob gofalwr ei ystyried yn unigol. Felly cytunwn na ragdybir bod yr hyn a gaiff ei ystyried yn 'sylweddol' ar gyfer gofalwr sy'n oedolyn yr un peth ar gyfer gofalwr ifanc.

Fodd bynnag, mae gennym ein hamheuon ynglŷn â'r term 'rheolaidd' gan y gallai'n anfwriadol gulhau diffiniad y Gorchymyn arfaethedig ac eithrio rhai mathau o ofal, er enghraifft gofalu am unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl, lle y gallai'r gofal fod yn ysbeidiol. Gan hynny, gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog fodloni ei hun na fydd cynnwys y term yn eithrio rhai gofalwyr pobl y gallai'r patrwm gofal fod yn afreolaidd neu'n amrywiol iawn.

O ran y mater o blant a phobl ifanc sy’n gofalu am frodyr neu chwiorydd nad oes ganddynt eu hunain nam corfforol na meddyliol, rydym yn cytuno â barn Cynghrair Cynhalwyr Cymru a’r Dirprwy Weinidog na ddylai’r plant a’r bobl ifanc hyn gael eu cynnwys o dan y Gorchymyn arfaethedig. Rydym yn fodlon y caiff achosion perthnasol eu cwmpasu gan y pwerau a ddarperir drwy’r Gorchymyn Plant sy’n Agored i Niwed.

6) Rydym yn cydnabod barn y rhai sy’n rhoi tystiolaeth ac yn nodi pryderon o ran cynnwys y cymal ‘plentyn â nam corfforol neu feddyliol’. Fodd bynnag, wedi ystyried y dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog a Chynghrair Cynhalwyr Cymru ein barn yw bod y cymal yn ddigon eang i gwmpasu pob nam.

7) Rydym yn cydnabod y dystiolaeth a roddodd tystion o ran ystyr gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y Gorchymyn arfaethedig ond rydym yn fodlon â’r geiriad fel y cafodd ei ddrafftio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, cefnogwn fwriad y Dirprwy Weinidog i ystyried yn llawnach y drafft a gynigir gan Gymdeithas Syndrom Down.

# 1. Cyflwyniad

*Cefndir*

1. Ar 8 Rhagfyr 2008, gosododd Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (“y Dirprwy Weinidog”) Orchymyn arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009 (“y Gorchymyn arfaethedig”) a’r Memorandwm Esboniadol, yn unol â rheol Sefydlog 22.13 a 22.14. Mae copïau o’r dogfennau hyn wedi’u cynnwys yn **Atodiad 1**. Gwnaeth y Dirprwy Weinidog ddatganiad am y Gorchymyn arfaethedig yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Rhagfyr 2008[1].

2. Ar 9 Rhagfyr 2008, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio’r Gorchymyn arfaethedig at Bwyllgor i gael ei ystyried yn fanwl, yn unol â rheol Sefydlog 22.16, ac yna cytunodd fod angen i’r Pwyllgor adrodd yn ôl ar y Gorchymyn arfaethedig erbyn 3 Ebrill 2009.

3. Cyfeiriwyd y Gorchymyn arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 i graffu arno cyn y broses ddeddfu ar 9 Rhagfyr 2008.

*Cylch gorchwyl gwaith craffu’r Pwyllgor*

4. Yn ein cyfarfod ar 14 Ionawr 2009, cytunwyd ar gylch gorchwyl ein gwaith fel y nodir isod:

(i) ystyried egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig ac a ddylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i’r Cynulliad yn y maes a nodir ym mater 15.9;

(ii) ystyried telerau’r Gorchymyn arfaethedig, ac, yn benodol, a ydynt wedi eu diffinio’n rhy eang neu’n rhy gul.

*Tystiolaeth*

5. Cyhoeddwyd galwad gyffredinol am dystiolaeth a gwahoddwyd sefydliadau allweddol o faes gofal cymdeithasol i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo ein gwaith. Mae copi o lythyr yr ymgynghoriad wedi’i gynnwys yn **Atodiad 2**. Mae rhestr o gyflwyniadau ysgrifenedig wedi’i chynnwys yn **Atodiad 3**.

6. Clywsom dystiolaeth ysgrifenedig gan nifer o dystion, ac mae’r manylion wedi’u cynnwys yn **Atodiad 4**. Mae tystiolaeth ysgrifenedig atodol a gafwyd gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol wedi’i chynnwys yn **Atodiad 5**.

---

[1] Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2008, tudalenau 63 – 82, (Sylwer: Oni nodir yn wahanol, bydd cyfeiriadau eraill yn yr adroddiad hwn at Gofnod y Trafodion yn cyfeirio at drafodion Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3)

7. Yr adroddiad a'r argymhellion canlynol yw'r casgliadau y daethom iddynt yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ein gwaith.

## 2. Egwyddor y Gorchymyn Arfaethedig

*Cefndir*

8. Byddai'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (y Gorchymyn) arfaethedig yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ym maes Lles Cymdeithasol (maes 15 o fewn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006")).

9. Mae'r Memorandwm Esboniadol a ddaw gyda'r Gorchymyn yn nodi y bydd rhoi cymhwysedd deddfwriaethol, fel y nodir ym Mater 15.9, yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("Llywodraeth y Cynulliad") i ystyried y bylchau a'r anghysondebau sy'n bodoli yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer gofalwyr[2].

10. O ran yr angen am ddeddfwriaeth, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

> "Mae'r cynnig hwn am gael cymhwysedd deddfwriaethol yn deillio o'r angen i gefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan ofalwyr i ddarparu gofal a i hyrwyddo llesiant gofalwyr"[3].

11. Wrth roi esboniad bellach o'r angen am ddeddfwriaeth, mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod ymgynghoriadau â gofalwyr, sefydliadau gofalwyr ac eraill, er gwaetha'r fframwaith deddfwriaeth a chanllawiau presennol, wedi nodi bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir na ellir mynd i'r afael â hwy ar hyn o bryd. Mae'n nodi:

> "Mae'n amlwg nad yw'r fframwaith cyfredol o ran deddfwriaeth a chanllawiau yng Nghymru wedi bod yn ddigon i sicrhau bod amcanion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch gofalwyr yn cael y flaenoriaeth angenrheidiol, er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â'r bylchau a'r anghysondebau hyn yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu"[4].

12. Yn ymarferol, nododd y Memorandwm Esboniadol fod y bylchau a'r anghysondebau hyn yn cynnwys:

> "concerns that carers' assessments and services for carers are patchy across Wales, and that we have not yet achieved the joined up approach that is needed across social services and the NHS, the need for a renewed effort to identify carers; the need for the wider provision of information to carers and better engagement by the NHS with carers, as partners in the provision of care"[5].

---

[2] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Memorandwm oddi wrth y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Y Gyfraith Gyfansoddiadol: Datganoli, Cymru, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009,* Cynnig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynglŷn â Gofalwyr

[3] ibid

[4] ibid

[5] Cofnod y Trafodion, paragraff 8, 28 Ionawr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3

13. Cyfeiria'r Memorandwm Esboniadol hefyd at raglen lywodraethu "Cymru'n Un" Llywodraeth y Cynulliad, sy'n cynnwys ymrwymiad i lunio deddfwriaeth newydd ar ofalwyr yn hytrach na dibynnu ar y dulliau atgyfnerthu presennol yn unig megis mesurau perfformiad ac arolygiad, cymhellion ariannol neu bwerau cyfarwyddo[6].

14. Mae'n nodi hefyd y byddai Mater 15.9 yn sicrhau bod y gwaith y mae gofalwyr yn ei wneud i ddarparu gofal yn cael ei gefnogi a bod eu llesiant yn cael ei hyrwyddo. Er enghraifft, byddai'n caniatáu i osod gofyniad ar asiantaethau perthnasol yn y sector cyhoeddus i feithrin strategaethau ynghylch gwybodaeth i ofalwyr mewn modd tebyg i ddeddfwriaeth yr Alban yn y maes hwn; yn caniatáu iddynt gydweithio'n effeithiol i gefnogi'r gofal sy'n cael ei ddarparu gan ofalwyr ac i hyrwyddo llesiant y gofalwyr hynny[7].

*Tystiolaeth gan dystion*

15. Roedd cefnogaeth eang ymysg y rhai a roddodd dystiolaeth o blaid egwyddor y Gorchymyn arfaethedig. Wrth groesawu penderfyniad Llywodraeth y Cynulliad i gyflwyno'r Gorchymyn arfaethedig, dywedodd Cynghrair Cynhalwyr Cymru:

> "The Wales Carers Alliance and Carers Wales wholeheartedly support the general principle that legislative competence is conferred to the Assembly to support the provision of care by carers and promote the well being of carers"[8].

16. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cefnogi egwyddor y Gorchymyn arfaethedig, gan gyfeirio at:

> "…need for continued improvement and an effective policy and legislative framework that provides responsive services and supports the needs of Wales 9,000 carers"[9].

17. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrth y Pwyllgor:

> "The levels of disability and long term illness in Wales would suggest that a holistic and robust approach is needed to address the gaps in support for young carers"[10].

18. Atgyfnerthwyd y sylwadau hyn gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru pan ddywedodd:

---

[6] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Memorandwm oddi wrth y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Y Gyfraith Gyfansoddiadol: Datganoli, Cymru, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009,* Cynnig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynglŷn â Gofalwyr, paragraff 13
[7] Ibid, paragraff 16
[8] CO3, Tystiolaeth ysgrifenedig
[9] CO10, Tystiolaeth ysgrifenedig
[10] CO16, Tystiolaeth ysgrifenedig

> "It is evident that supporting the provision of care by carers and promoting the well-being of carers is a key area of need over which the Welsh Assembly Government should have legislative competence"[11].

19. Roedd pob un o'r ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad a soniodd am y Gorchymyn arfaethedig yn ei gefnogi. Er enghraifft, roedd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu Cymru yn cytuno y dylai cymhwysedd deddfwriaethol, a nodwyd ym Mater 15.9, gael ei roi i'r Cynulliad, o gofio'r wybodaeth ddemograffig sy'n cefnogi'r cynnig[12].

20. Yn yr un modd, roedd Barnardo's Cymru o'r farn y byddai rhoi cymhwysedd yn hwyluso ymateb mwy effeithiol i anghenion lleol [13].

21. Roedd tystiolaeth gref gan dystion yn cefnogi'r angen am y Gorchymyn arfaethedig, yn arbennig fel modd o fynd i'r afael â'r bylchau yn y ddeddfwriaeth bresennol. Dywedodd CLlLC:

> "The additional powers that an LCO would give would be able to reconcile the increasing gap of a lack of partnership and ownership regarding carers"[14].

22. Wrth gyfeirio at yr angen am ddeddfwriaeth, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrthym:

> "There is a real opportunity here for some consistency in how the needs of young carers are specifically met. It is proactive. It is responsive to the very strong need that I am hearing about"[15].

23. Ategwyd y farn hon gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a ddwedodd y byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn:

> "…support the provision of information to carers, help identify carers, and also encourage, with the aid of a framework, effective working across health and social services"[16].

24. Mynegwyd cefnogaeth o blaid yr egwyddor a'r angen am ddeddfwriaeth hefyd mewn tystiolaeth gan Gymdeithas Syndrom Down, Hafal a Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched Cymru[17].

25. Fodd bynnag, barn rhai tystion oedd nad cymhwysedd deddfwriaethol oedd yr unig fodd o fynd i'r afael ag anghenion gofalwyr. Wrth gyfeirio at gymhwysedd deddfwriaethol, dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wrth y Pwyllgor:

---

[11] CO9, Tystiolaeth ysgrifenedig
[12] CO1, Tystiolaeth ysgrifenedig
[13] CO2, Tystiolaeth ysgrifenedig
[14] Cofnod y Trafodion, paragraff 8, 4 Chwefror 2009
[15] ibid, paragraff 11, 11 Chwefror 2009
[16] ibid, paragraff 10
[17] CO7, CO8 a CO14, Tystiolaeth ysgrifenedig

> "I do not think that it is the only means. I think that the intention behind legislative competence, and the over arching direction of travel that this will encourage public organisations, the third sector and private partners to take, is an important principle"[18].

26. Roedd Comisiynydd Plant Cymru hefyd yn rhannu'r farn hon ac wrth gyfeirio at y cyrff perthnasol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth a chymorth i ofalwyr, dywedodd:

> "I don't know whether this is the only way in which we can get the type of consistency, that I mentioned earlier, but the issue for me about the LCO is that it should focus minds and that it should provide a real duty"[19].

*Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

27. Wrth roi tystiolaeth, eglurodd y Dirprwy Weinidog fod yr angen am gymhwysedd deddfwriaethol yn deillio o fylchau ac anghysondebau presennol yn y gwasanaethau a ddarperir. Dywedodd wrthym fod y ddeddfwriaeth bresennol yn ymwneud yn bennaf â phwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a phwerau awdurdodau lleol i wneud cais i asiantaethau eraill gydweithio [20]. Fodd bynnag, nid yw'n gosod dyletswydd ar y GIG nac asiantaethau statudol eraill. Dywedodd:

> "The proposed LCO is not about enforcing existing legislation, but about addressing gaps in that legislation. More effective partnership working is one of the key areas that the evidence suggests we need to address in this way"[21].

28. Aeth y Dirprwy Weinidog ymlaen i egluro bod y ddeddfwriaeth bresennol yn annigonol o ran rhoi digon o gymorth i ofalwyr a hyrwyddo llesiant y gofalwyr hynny. Dywedodd fod deddfwriaeth bresennol, fel y *Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000*, yn gyfyngedig:

> "…it gives local authorities considerable discretion. There is no explicit duty to provide services to carers, and the provisions of the Act do not apply to the National Health Service or the statutory agencies, and they do not embrace carers under the age of 16"[22].

29. Yn ogystal, o ran y *Ddeddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004*, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> "empowers local authorities to ask other specified authorities for assistance in planning the provision of services to carers, it requires the other Authority to give due consideration to such a request.

[18] Cofnod y Trafodion, paragraff 14, 11 Chwefror 2009
[19] ibid, paragraff 16
[20] ibid, paragraff 7, 25 Chwefror 2009
[21] ibid
[22] ibid, paragraff 15, 28 Ionawr 2009

However, it does not address the limitations of the 2000 Act; for example, there is no statutory duty to co-operate”[23].

30. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod ystyriaeth wedi cael ei rhoi i feddwl tybed a fyddai’n bosibl gwella’r gwasanaethau a ddarperir i ofalwyr drwy ganllawiau statudol pellach o dan adran 7 (1) o *Ddeddf Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cymdeithasol 1970* neu drwy ganllawiau arfer gorau pellach. Fodd bynnag, dywedodd:

> “Statutory guidance under section 7 (1) only applies to local authority social services functions, and does not have the same impact as a legal duty. Although it must be complied with in general terms, an authority has discretion to depart from such guidance if it believes there is good reason to do so”[24].

31. I gloi, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> “Good practice guidance is weaker in status in those authorities as they only have to take it into account. Our judgment is that to provide a new impetus for further improvements to the arrangements to support carers and to promote their wellbeing, we now require new legislative powers”[25].

32. Ychwanegodd:

> “… [this] would create a more consistent approach to the needs of carers and how we attempt to meet them”[26].

*Ein barn ni*

33. Nodir y gefnogaeth eang a roddir i’r Gorchymyn arfaethedig ac yn arbennig nad oes unrhyw sefydliad wedi gwrthwynebu, mewn egwyddor, i roi cymhwysedd deddfwriaethol ynglŷn â gofalwyr. **Rydym yn cytuno, mewn egwyddor, y dylai cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes a ddarperir gan Fater 15.9, gael ei roi i’r Cynulliad.** Credwn y byddai’n gyfle i Lywodraeth y Cynulliad gyflwyno Mesur a fyddai’n mynd i’r afael â’r bylchau a’r anghysondebau mewn deddfwriaeth bresennol ac yn gwella’r cymorth a roddir i ofalwyr a llesiant gofalwyr.

[23] Cofnod y Trafodion, paragraff 15, 28 Ionawr 2009, paragraff 16
[24] ibid, paragraff 18
[25] ibid, paragraff 18
[26] ibid, paragraff 20

# 3. Craffu ar y Gorchymyn Arfaethedig

34. Mae'r adran ganlynol yn ystyried y materion allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod ein trafodaethau o'r Gorchymyn arfaethedig.

### i) Amrywiad yn Asesiadau Gofalwyr a'r Gwasanaethau a Ddarperir

*Cefndir*

35. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y Cynulliad yn nodi pryderon fod asesiadau gofalwyr a gwasanaethau i ofalwyr yn amrywiol iawn ac yn ddarniog ledled Cymru. Dywed y byddai rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad yn hwyluso'r broses o fynd i'r afael â'r amrywiadau hynny[27].

*Tystiolaeth gan dystion*

36. Cafodd yr amrywiad, o ran asesiadau gofalwyr a'r gwasanaethau a ddarperir ledled Cymru ei gadarnhau gan dystion yn eu tystiolaeth. Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wrthym:

> "There is vast inconsistency across the country, which should not be the case. Access to information and services should be the same across the country"[28].

37. Ategwyd y farn honno gan Gomisiynydd Plant Cymru a ddywedodd fod ystyriaethau enfawr ynghylch anghysondeb[29] ac aeth ymlaen i egluro:

> "In terms of the inconsistency, I am not clear whether those assessments are taking place or not. If adult services go into a family home and recognise that a child, who may not be the primary carer, has a significant caring responsibility to assist a primary carer, I do not know whether they would talk to children's services in the same local authority"[30].

38. Ychwanegodd fod cyfathrebu, sy'n ganolog i'r holl fater o anghysondeb yn peri pryder iddo[31].

39. Fodd bynnag, cyflwynodd CLlLC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol rai dadleuon dros amrywiad:

> "Local Authorities are all different – different areas with different patches and different people. Most of us will be working with carers'

---

[27] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Memorandwm oddi wrth y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Y Gyfraith Gyfansoddiadol: Datganoli, Cymru, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cyrmu (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009,* Cynnig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynglŷn â Gofalwyr, paragraff 12(a)
[28] Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 11 Chwefror 2009
[29] ibid, paragraff 19
[30] ibid, paragraff 20
[31] ibid

support groups on identifying their needs. It is not surprising that there will be different developments in different areas"[32].

*Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

40. Wrth roi tystiolaeth, cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at y mater o amrywiadau perfformiad sylweddol rhwng awdurdodau lleol o ran asesu anghenion gofalwyr a mynd i'r afael â'r amcanion hynny. Ychwanegodd:

> "…legislative competence would, obviously, allow us to introduce Measures to help address these matters"[33].

41. Fodd bynnag, wrth ymateb i'r materion a gododd CLlLC/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol o ran amrywiad derbyniol, roedd y Dirprwy Weinidog yn cydnabod y gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol ac yn derbyn y dylent gael yr hawl i bennu eu blaenoriaethau eu hunain, a darparu ystod o wahanol wasanaethau i fynd i'r afael ag anghenion asesedig gofalwyr yn eu hardaloedd hwy. Ychwanegodd, fodd bynnag:

> "It is also important that those variations are reasonable, that they are based on evidence of local needs and that they are developed and implemented within the context of a national framework. The proposed LCO does not directly address local variations, but will provide the powers to establish the necessary national framework for local decision making"[34].

42. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog sicrwydd i ni hefyd yr ymgynghorir â rhanddeiliaid ynglŷn â'r cydbwysedd rhwng fframweithiau cenedlaethol a phenderfyniadau lleol o ran mynd i'r afael ag anghenion lleol mewn cysylltiad â Mesurau, rheoliadau drafft a chanllawiau'r dyfodol.

*Ein barn ni*

**43. Ar ôl ystyried y pryderon a gyflwynodd y rhai a roddodd dystiolaeth ac ystyried y sicrwydd a roddodd y Dirprwy Weinidog, rydym yn fodlon y bydd y Gorchymyn arfaethedig, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn rhoi fframwaith a fydd yn sicrhau mwy o gysondeb ac yn caniatáu i broses gael ei datblygu a fydd yn mynd i'r afael ag amrywiadau afresymol mewn asesiadau gofalwyr a'r gwasanaethau a ddarperir. Nodwn hefyd sylwadau'r Dirprwy Weinidog ynglŷn â'r cydbwysedd rhwng fframweithiau cenedlaethol a phenderfyniadau lleol wrth ystyried anghenion lleol. Rydym yn croesawu'r ffaith y caiff rhanddeiliaid fynegi barn ar y materion hyn wrth drafod Mesurau, rheoliadau drafft a chanllawiau arfaethedig yn y dyfodol.**

[32] Cofnod y Trafodion, paragraff 17, 4 Chwefror 2009
[33] ibid, paragraff 10, 28 Ionawr 2009
[34] ibid, paragraff 10, 25 Chwefror 2009

## ii) Gwaith Amlasiantaethol

*Cefndir*

44. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y Cynulliad yn nodi mai un o'r prif faterion na chaiff ei ystyried gan ddeddfwriaeth bresennol yw'r ddarpariaeth ehangach o wybodaeth i ofalwyr a gwell cysylltiad o ran y GIG â gofalwyr fel partneriaid wrth ddarparu gofal. Yn ogystal, mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn datgan:

> "legislative competence will ensure that statutory agencies (being those mentioned in 3(5) of the Carers (Equal Opportunities) Act 2004 (c.15) properly engage with carers as partners in the provision of care involving them at all levels in the assessment, delivery and evaluation of an individual's care arrangements"[35].

*Tystiolaeth gan dystion*

45. Cadarnhaodd Cynghrair Cynhalwyr Cymru:

> "there is a lack of co-operation between different public bodies, but this chasm, despite all the rhetoric between health and social care, is the biggest barrier for most carers"[36].

46. Ychwanegwyd ei bod yn cefnogi'r Gorchymyn arfaethedig am y byddai'n sicrhau'r canlynol:

> "…the power to impose duties on health and social care to get their acts together"[37].

47. Wrth egluro'r pwynt hwn, dywedodd Cynghrair Cynhalwyr Cymru wrthym:

> "There need to be stronger duties on local government, but also, there need to be, as is mentioned in the LCO, stronger duties on other public bodies. Nearly all carers have contact with some other public body, particularly the health service. If we are being serious, about addressing the needs of the vast majority of carers, that will not be through social services, because that is not where most carers go"[38].

48. Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n rhannu'r farn honno, gan bwysleisio bod y ddyletswydd i gydweithio yn un bwysig[39].

---

[35] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Memorandwm oddi wrth y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Y Gyfraith Gyfansoddiadol: Datganoli, Cymru, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cyrmu (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009,* Cynnig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynglŷn â Gofalwyr

[36] Cofnod y Trafodion, paragraff 45,11 Chwefror 2009

[37] ibid

[38] ibid, paragraff 31

[39] ibid, paragraff 47, 11 Chwefror 2009

49. Roedd CLlLC hefyd yn cefnogi'r fath egwyddorion gan ddatgan:

> "Increasingly care, support and advice to carers should be provided on a multi disciplinary and multi agency basis"[40].

50. Yn yr un modd, awgrymodd Comisiynydd Plant Cymru fod angen mynd i'r afael â'r diffyg cydweithio mewn awdurdodau lleol:

> "If adult services go into a family home and recognise that a child, who may not be the primary carer, has a significant caring responsibility to assist a primary carer, I do not know whether they would talk to children's services in the same local authority and say, 'Are you aware of these two children and what they are doing?'. So, there is a real issue for me about communication, which underpins the issue about inconsistency. The other issue for me, I suppose, is about basic sharing of information and making sure that children as young carers are not slipping through the net, as appears to be happening"[41].

51. Cyfeiriodd hefyd at y cysylltiadau rhwng gwasanaethau addysg a gofalwyr ifanc a phwysleisiodd fod cydweithio yn allweddol[42].

52. Roedd yr holl dystion yn cefnogi'r ddeddfwriaeth fel y ffordd orau o sicrhau cydweithredu rhwng cyrff cyhoeddus. Awgrymodd Comisiynydd Plant Cymru, mai canolbwyntio yw'r ffordd ymlaen[43]. Cafodd hyn gefnogaeth gref gan Gynghrair Cynhalwyr Cymru a oedd yn teimlo fod pethau wedi bod yn rhy niwlog ers cryn amser a'i bod yn bosibl bod angen rhywbeth mwy strwythurol[44]. Mynegwyd yr un farn gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a ddywedodd nad yw'r cynlluniau presennol yn ddigon cryf ac nad ydynt yn cael eu gweithredu'n gyson [45].

*Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

53. Roedd y Dirprwy Weinidog yn cydnabod ei bod yn bosibl gwella'r bartneriaeth weithio a bod bwlch ar hyn o bryd rhwng gweithio mewn partneriaeth a pherchnogi cyfrifoldeb. Ychwanegodd fod angen cymhwysedd deddfwriaethol i fynd i'r afael â'r broblem hon yn fwy effeithiol[46].

*Ein barn ni*

**54. Rydym yn nodi cryfder y dystiolaeth sy'n cefnogi'r angen am weithio'n well mewn partneriaeth, yn arbennig o ran darparu gofal, cymorth a chyngor i ofalwyr. Mae tystiolaeth y Dirprwy Weinidog yn ein**

[40] Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 4 Chwefror 2009
[41] Ibid, paragraff 20, 11 Chwefror 2009
[42] ibid, paragraff 48
[43] ibid, paragraff 51
[44] ibid, paragraff 52
[45] Ibid, paragraff 53
[46] ibid, paragraff 12, 25 Chwefror 2009

**sicrhau y bydd cymhwysedd deddfwriaethol yn galluogi'r gwelliannau angenrheidiol i gael eu darparu.**

## 4. Diffiniadau a Therminoleg

55. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu materion allweddol a nodwyd mewn cysylltiad â diffiniadau a therminoleg a gaiff eu cynnwys yn y Gorchymyn arfaethedig.

### *i) "Gofalwr"*

*Cefndir*

56. Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn nodi:

> "Yn y mater hwn, ystyr "gofalwyr" yw unigolion sy'n darparu neu'n bwriadu darparu maint sylweddol o ofal ar sail reolaidd—
>
> (a) i blentyn â nam corfforol neu feddyliol, neu
>
> (b) i unigolyn sy'n 18 oed neu drosodd,"

57. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y Cynulliad yn nodi nad yw'r diffiniad o ofalwr yn y Gorchymyn arfaethedig yn adlewyrchu'n union yr un a roddir yn *Neddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000* gan nad yw'n cynnwys unrhyw gyfyngiad o ran oedran. Oherwydd hynny, mae'r term "gofalwyr" cyffredinol wedi cael ei gynnwys yn y Gorchymyn arfaethedig[47].

*Tystiolaeth gan dystion*

58. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

> "Though we welcome the clear commitment made by the Deputy Minister both in the explanatory memorandum (para.15) and her Ministerial Statement regarding the LCO, we would look for clarification within the wording of Matter 15.9 to ensure that young carers are comprehensively provided for under this matter"[48].

59. Mynegwyd yr un math o bryderon gan CLlLC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cyhoeddus, a ddywedodd y byddai'r Gymdeithas yn:

> "…advocate that if the LCO were to proceed, young carers, as the most vulnerable group are explicitly referred to and thus the definition in the proposed Order be amended to read: In this matter 'carers' means individuals including those aged under 18 who provide or intend to provide a substantial amount of care on a regular basis"[49].

---

[47] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Memorandwm oddi wrth y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Y Gyfraith Gyfansoddiadol: Datganoli, Cymru, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cyrmu (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009,* Cynnig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynglŷn â Gofalwyr, paragraff 15

[48] CO16, Tystiolaeth ysgrifenedig

[49] CO10, Tystiolaeth ysgrifenedig

*Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

60. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y bydd "y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig hwn yn cynnwys gofalwyr ifanc"[50]. Wrth gyfeirio'n benodol at ofalwyr ifanc, nododd:

> "Nid yw Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 yn cynnwys gofalwyr ifanc na gofalwyr o dan 16 mlwydd oed, felly nid oes hawl unigol gan ofalwr o dan 16 i ofyn am asesiadau neu wasanaethau. Felly, rhaid inni feddwl yn ddifrifol am sut i gynnwys gofalwyr ifanc"[51].

61. Mewn tystiolaeth bellach, cawsom sicrwydd gan y Dirprwy Weinidog:

> "The current wording ensures that young carers under the age of 18 fall within the scope of the proposed LCO, and that there is therefore, no need to make a specific reference to them"[52].

*Ein barn ni*

**62. Nodir bod rhai tystion wedi awgrymu cynnwys cyfeiriad penodol at ofalwyr ifanc o fewn y diffiniad o'r Gorchymyn arfaethedig. Fodd bynnag, rydym yn fodlon ar esboniad y Dirprwy Weinidog fod ehangder y diffiniad presennol yn sicrhau bod gofalwyr o dan 18 oed yn dod o fewn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig. Teimlwn hefyd fod tystiolaeth y Dirprwy Weinidog yn adlewyrchu bwriad Mesurau arfaethedig y dyfodol wrth sicrhau bod yr holl ofalwyr yn cael eu cynnwys.**

*ii) "Rheolaidd a Sylweddol"*

*Cefndir*

63. Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn nodi:

> "Yn y mater hwn, ystyr "gofalwyr" yw unigolion sy'n darparu neu'n bwriadu darparu maint sylweddol o ofal ar sail reolaidd …"

*Tystiolaeth gan dystion*

64. Roedd barn gymysg ynglŷn â defnyddio a diffinio'r termau 'rheolaidd' a 'sylweddol' yn y Gorchymyn arfaethedig.

65. Awgrymodd CLlLC y byddai'n ddoeth diffinio beth yw ystyr "sylweddol"[53] ac y byddai mwy o eglurder o hyn yn lleihau unrhyw amwysedd neu gamddehongli ar draws gwahanol asiantaethau'r sector cyhoeddus sy'n ymwneud â chynorthwyo gofalwyr[54]. Fodd bynnag, roedd yn

[50] Cofnod y Trafodion, paragraff 28, 28 Ionawr 2009
[51] ibid
[52] ibid, paragraff 26, 25 Chwefror 2009
[53] C10, Tystiolaeth ysgrifenedig
[54] ibid

cytuno hefyd y byddai'n well rhoi unrhyw ddiffiniadau felly mewn canllawiau yn hytrach nag ar wyneb y Gorchymyn arfaethedig[55].

66. Mynegodd Comisiynydd Plant Cymru hefyd, bryderon am y geiriad 'maint sylweddol o ofal ar sail reolaidd' ac roedd o'r farn nad oedd yn cydnabod y model unigryw o ofal a gaiff ei ddarparu gan rai pobl ifanc. Awgrymwyd hefyd bod angen egluro ystyr *'maint sylweddol'*.

67. Cyfeiriodd Comisiynydd Plant Cymru hefyd at yr esiampl o'r gofalwyr heb eu dynodi, lle mae'n bosibl fod y gofalwr ifanc yn darparu gofal mwy afreolaidd neu gyfnodau seibiant ar gyfer y prif ofalwr sy'n oedolyn[56]. Awgrymodd y dystiolaeth hefyd y gallai hyn fod yn wir o ran gofalwyr ifanc eraill sy'n aml yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o sicrhau bod y cartref teuluol yn rhedeg yn esmwyth ond na fydd, o anghenraid wedi cael ei enwi'n 'ofalwr'[57]. Dywedwyd:

> "It is paramount that the wording of the LCO guarantees the rights and welfare of all young carers and that the term 'substantial amount' does not prevent some young carers from being provided with greater support and information services"[58].

68. Wrth gael ei holi, ymhelaethodd Comisiynydd Plant Cymru ar y mater o ofalwyr heb eu dynodi. Rhoddodd eglurhad o'r mater drwy sôn am ofal brawd neu chwaer lle y gallai'r plentyn hŷn fod yn brif ofalwr, ond nid oedd hyn yn golygu nad oedd brodyr neu chwiorydd hefyd yn gyfrifol am ddyletswyddau gofal rheolaidd. Roedd Comisiynydd Plant Cymru o'r farn:

> "We have to be clear that the wording does not prohibit any young carer from receiving support. That is the absolute principle"[59].

69. Ychwanegodd y gallai unrhyw fath o ofal, o safbwynt plentyn, gael ei ystyried fel gofal sylweddol a'i bod yn bwysig sicrhau nad oedd y Gorchymyn arfaethedig yn cyfyngu ar y cymorth sydd ar gael i ofalwyr sy'n blant[60].

70. Mynegodd Comisiynydd Plant Cymru hefyd ei ansicrwydd o ran y term 'sail reolaidd'. Cyfeiriodd at waith ymchwil diweddar a gynhaliodd ei dîm, a ganfu bod 77% 'r bobl ifanc yn yr arolwg a wnaethant yn teimlo straen yn ystod yr wythnos cyn cynnal yr arolwg[61]. Dywedodd wrthym fod cyfrifoldebau gofal y gofalwr ifanc yn barhaus. Esboniodd:

> "They go to school and spend time with their friends in the park, but the stuff about their mum, dad or their caring responsibility is constantly around for them. In terms of regularity, the wording does

[55] Cofnod y Trafodion, paragraff 73, 4 Chwefror 2009
[56] CO16, Tystiolaeth ysgrifenedig
[57] ibid
[58] ibid
[59] Cofnod y Trafodion, paragraff 120, 11 Chwefror 2009
[60] ibid
[61] ibid

not help the experience that the child is living, in a sense. Therefore, I do have a concern about that"[62].

71. Fodd bynnag, yn groes i'r farn hon, awgrymodd Cynghrair Cynhalwyr Cymru wrth roi tystiolaeth, fod 'sylweddol' a 'rheolaidd' yn dermau a ddefnyddir mewn deddfwriaeth bresennol ar gyfer gofalwyr a bod dadl felly dros barhau i ddefnyddio'r termau hynny. Ychwanegwyd bod canllawiau presennol Llywodraeth y Cynulliad, ar *Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000* yn cynnwys enghraifft syml iawn lle mae angen edrych ar effaith gofal ar y gofalwr bob amser[63].

72. Cyflwynodd y Gymdeithas Syndrom Down enghraifft ymarferol o'r ffodd y gallai defnyddio'r ymadrodd 'rheolaidd a sylweddol' achosi trafferth. Roedd ei thystiolaeth yn ymwneud â pherthynas, megis oedolyn â Syndrom Down yn byw gyda rhiant hŷn, sy'n gofalu am ei gilydd ac o fudd i'r ddau ohonynt, h.y. lle mae pob un yn ymgymryd â rhyw agwedd ar ofalu am y llall ac na fyddai'r un yn gallu ymdopi heb y llall[64].

73. Dywedwyd:

> "Whilst it is possible that the proposed definition could encompass this group, it would be problematic to see the pair excluded from provision by reference to a 'substantial' amount of care. Some indication of 'necessary' care should be included"[65].

*Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

74. Roedd y Dirprwy Weinidog yn cydnabod pwysigrwydd y mater hwn a chytunodd:

> "In developing our future draft Measure, draft regulations or draft guidance with stakeholders, we must ensure that the regular and substantial filters are appropriate to meet the needs and circumstances of young carers"[66].

75. Ychwanegodd y Dirprwy Weinidog fod canllawiau i awdurdodau lleol ar *Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000*, y mabwysiadwyd y termau 'rheolaidd' a 'sylweddol' ohonynt, yn ei gwneud yn amlwg nad oes disgwyl i ofalwyr ifanc ymgymryd â lefelau gofal amhriodol, a gaiff effaith andwyol ar eu datblygiad a'u cyfleoedd mewn bywyd.

76. Dywedodd hefyd:

---

[62] Cofnod y Trafodion, paragraff 123, 11 Chwefror 2009,
[62] ibid
[63] ibid, paragraff 125
[64] CO7, Tystiolaeth ysgrifenedig
[65] ibid
[66] Cofnod y Trafodion, paragraff 36, 25 Chwefror 2009

"It must not be assumed that children should take on similar levels of caring and responsibilities as adults"[67].

77. Aeth ymlaen i ddatgan:

"I do not consider that it would be helpful to define more narrowly what is meant by 'regular' and 'substantial' for young carers in our proposed LCO. I think that that could serve only to exclude many young carers. It is a matter that will need to be considered and addressed in the future development of Measures, draft regulations, or draft guidance"[68].

78. Wrth egluro'r defnydd o'r termau 'rheolaidd' a 'sylweddol', pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog eu bod wedi cael eu defnyddio mewn deddfwriaeth bresennol a:

"There is absolutely no evidence that leads me to think that definition has not worked in practice"[69].

79. Wrth ymateb i'r materion y cyfeiriodd Comisiynydd Plant Cymru atynt mewn cysylltiad â gofalwyr heb eu dynodi, rhoddodd y Dirprwy Weinidog gyngor a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol i ni a oedd yn cyfeirio at y ffaith a oedd y Gorchymyn arfaethedig fel y cafodd ei ddrafftio yn cynnwys plant a gofalwyr ifanc sy'n gofalu am frodyr a chwiorydd nad oes ganddynt nam corfforol neu feddyliol eu hunain.

80. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog na fyddent yn cael eu cynnwys o dan y Gorchymyn arfaethedig fel y mae a bod trafodaethau â'r Gynghrair Cynhalwyr wedi canfod nad oes barn gref gan y Gynghrair na ddylai'r Gorchymyn arfaethedig gynnwys plant yn y sefyllfa hon[70].

81. Yn ogystal, er nad yw plant a phobl ifanc sy'n gofalu am frodyr a chwiorydd o dan yr amgylchiadau hyn yn cael eu cynnwys yn ein Gorchymyn arfaethedig, pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn bosibl y cânt eu cynnwys yn y diffiniad o blant mewn angen a chael eu cwmpasu gan y Gorchymyn Plant sy'n Agored i Niwed[71], os oes perygl y gall y gofal a ddarperir ganddynt gael effaith andwyol ar eu hiechyd neu eu datblygiad.[72]

*Ein barn ni*

**82. Nodir y pryderon a godwyd gan dystion o ran cynnwys y termau 'rheolaidd' a 'sylweddol'. Rydym yn fodlon ar y defnydd o'r term 'sylweddol', gyda sicrwydd y Dirprwy Weinidog y caiff pob gofalwr ei ystyried yn unigol. Felly cytunwn na chymerir yn ganiataol na chaiff yr**

---

[67] Cofnod y Trafodion, paragraff 39, 25 Chwefror 2009
[68] ibid
[69] ibid, paragraff 42
[70] Llythyr gan Gwenda Thomas AC, Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, 5 Mawrth 2009
[71] Gorchymyn Cynulliad Cenedalethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 3) (yn ymwneud â Phlant sy'n agored i Niwed
[72] Llythyr gan Gwenda Thomas AC, Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, 5 Mawrth 2009

**hyn a gaiff ei ystyried yn sylweddol i oedolyn sy'n gofalu ei ystyried yr un peth ar gyfer gofalwr ifanc.**

**83. Fodd bynnag, mae gennym rai amheuon ynglŷn â'r term 'rheolaidd' gan y gallai arwain yn anfwriadol at gyfyngu cwmpas y Gorchymyn arfaethedig ac eithrio rhai mathau o ofal, er enghraifft gofalu am unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl, lle y gallai'r gofal fod yn achlysurol. Felly gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog fodloni ei hun na fydd cynnwys y term yn eithrio rhai gofalwyr pobl y gallai'r patrwm gofal fod yn afreolaidd ac yn amrywiol iawn.**

**84. O ran y mater o blant a gofalwyr ifanc sy'n gofalu am frodyr neu chwiorydd nad oes ganddynt nam corfforol neu feddyliol eu hunain, cytunwn â barn Cynghrair Cynhalwyr Cymru a'r Dirprwy Weinidog na ddylai'r plant na'r gofalwyr ifanc hyn gael eu cynnwys o dan y Gorchymyn arfaethedig. Rydym yn fodlon y caiff yr achosion perthnasol eu cynnwys yn y pwerau a ddarperir drwy'r Gorchymyn Plant sy'n Agored i Niwed.**

### *(iii) "Plentyn â Nam Corfforol neu Feddyliol"*

*Cefndir*

85. Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn nodi:

> "Yn y mater hwn, ystyr "gofalwyr" yw unigolion sy'n darparu neu'n bwriadu darparu maint sylweddol o ofal ar sail reolaidd—
>
> (a) i blentyn â nam corfforol neu feddyliol, neu
>
> (b) i unigolyn sy'n 18 oed neu drosodd,"

86. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y Cynulliad yn egluro hyn drwy ddatgan mai gofalwyr, yng nghyd-destun y Gorchymyn arfaethedig yw "gofalwyr unigolion o unrhyw oedran sy'n derbyn gofal, ond yn achos unigolion sy'n gofalu am blant, mae'n cwmpasu plant â nam corfforol neu feddyliol"[73].

*Tystiolaeth gan dystion*

87. Mynegodd nifer o dystion bryderon am y diffiniad o ofalwyr plant fel gofalwyr "plentyn â nam corfforol neu feddyliol". Mynegodd nifer o bobl y farn fod y diffiniad hwn yn rhy gul a bod perygl y gallai eithrio gofalwyr plant nad yw eu cyflyrau wedi'u diffinio fel nam corfforol na meddyliol.

88. Ategwyd y farn hon gan Gomisiynydd Plant Cymru a dywedodd:

[73] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Memorandwm oddi wrth y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Y Gyfraith Gyfansoddiadol: Datganoli, Cymru, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cyrmu (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009,* Cynnig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynglŷn â Gofalwyr

"There are issues around substance misuse and behavioural issues. Behavioural issues in children that would not be categorised as constituting a mental impairment can still represent quite significant developmental issues. With regard to illness, there is still quite a significant gap in the definition. Therefore, I agree completely that this wording is just not helpful"[74].

89. Dywedodd Cynghrair Cynhalwyr Cymru:

"That the current definition "creates the possibility of excluding a large number of children with particular disabilities"[75].

90. Fodd bynnag, yn ychwanegol at eu tystiolaeth lafar i ni, cyflwynodd Cynghrair Cynhalwyr Cymru dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol ynglŷn â defnyddio'r ymadrodd "plentyn â nam corfforol neu feddyliol" a oedd yn datgan:

"For the purpose of the Carers LCO, we are agreed that the definition included in the LCO is sufficient to cover most situations for the carers of disabled children and the alliance supports it"[76].

91. Pwysleisiwyd hefyd eu bod am i'r diffiniad o ofalwr yn y Gorchymyn arfaethedig fod yn ddigon eang i gynnwys cymaint o ofalwyr â phosibl[77]. Dywedwyd fod y diffiniad yn y Gorchymyn arfaethedig yn cyd-fynd â'r ddwy ddeddfwriaeth gynharach ar ofalwyr a Deddf Diogelu ar sail Anabledd 1995[78].

92. Yn ychwanegol at y pryderon y gallai'r Gorchymyn arfaethedig eithrio rhai gofalwyr plant, dywedodd Cynghrair Cynhalwyr Cymru:

"We confirm we believe that the definition of disability within the LCO is broad enough to encompass a very wide range of conditions and impairments affecting children, including ADHD and similar conditions"[79].

*Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

93. Dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"If we were to add any more specifics, we would be restricting rather than enhancing the scope of the LCO. I feel that relying on 'physical and mental impairment' to cover all impairments might be a better way of ensuring that we have as wide a scope as possible"[80].

---

[74] Cofnod y Trafodion, paragraff 152, 11 Chwefror 2009
[75] ibid, paragraff 151
[76] CO3 (Atodiad 1), Tystiolaeth ysgrifenedig
[77] ibid
[78] ibid
[79] ibid
[80] Cofnod y Trafodion, paragraff 80, 28 Ionawr 2009

94. Wrth chwilio am eglurhad pellach, holwyd y Dirprwy Weinidog a fyddai gofalu am rywun sydd â chyflwr iechyd sy'n gwaethygu nad yw eto wedi datblygu'n nam corfforol neu feddyliol yn cael ei gynnwys o dan y Gorchymyn hwn.

95. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

> "I would have thought that somebody with a progressive illness who needs care will be covered by it"[81].

96. Mewn tystiolaeth bellach, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> "It would be counterproductive to try to draw up a list of eligible health or other conditions, to be listed specifically in the proposed LCO, because the risk of leaving something out"[82].

*Ein barn ni*

**97. Rydym yn cydnabod barn y rhai a roddodd dystiolaeth ac yn nodi'r pryderon ynglŷn â chynhwysedd yr ymadrodd 'plentyn â nam corfforol neu feddyliol'. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog a Chynghrair Cynhalwyr Cymru, ein barn yw bod yr ymadrodd yn ddigon eang i gwmpasu pob nam.**

*(iv) "Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol"*

*Cefndir*

98. Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn datgan Erthygl (**2**(2));

> "Mae'r mater hwn yn cynnwys, yn benodol, wasanaethau gofal cymdeithasol i gynorthwyo gofalwyr."

99. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y Cynulliad yn datgan y gallai Mesurau yn y dyfodol ddarparu, er enghraifft, er mwyn sicrhau bod cyrff iechyd yn ystyried buddiannau gofalwyr (paragraff 16), er enghraifft wrth wneud trefniadau ar gyfer apwyntiadau, trefniadau rhyddhau o'r ysbyty a chasglu presgripsiynau ar gyfer y bobl sy'n cael gofal. Mae'n nodi hefyd y dylai'r Gorchymyn arfaethedig ddiffinio Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol fel:

> "unrhyw un o'r canlynol a ddarperir mewn cysylltiad â llesiant unrhyw berson: gwasanaethau gofal preswyl neu ddibreswyl; gwasanaethau

[81] Cofnod y Trafodion, paragraff 105, 28 Ionawr 2009
[82] Cofnod y Trafodion, paragraff 55, 25 Chwefror 2009

gwybodaeth, cynghori, cwnsela neu eirioli; cymorth ariannol neu unrhyw gymorth arall;”[83].

*Tystiolaeth gan dystion*

100. Dywedodd CLlLC/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yr hoffent weld y diffiniad o “wasanaethau gofal cymdeithasol” yn cael ei ehangu i gynnwys sefydliadau’r GIG[84]. O ran y mater ehangach o weithio mewn partneriaeth, dywedwyd:

> “It is in the context of trying to change the profile that suggests that this is just for local authorities so that it is seen as a partnership in which, increasingly, a range of services is delivered by a multi-agency approach”[85].

101. Ychwanegwyd:

> “Where drafting needs to refer specifically to social services, as appropriate, then it should, but our fundamental aim is for this to be seen as a partnership for carers and not just a social services responsibility”[86].

102. Ar y cyfan, roedd CLlLC/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol o’r farn fod ‘gwasanaethau gofal cymdeithasol’ yn ddiffiniad mor swta y gallai olygu nad oedd rhai sefydliadau yn rhoi rhai o anghenion penodol gofalwyr ar eu hagenda[87].

103. Cafodd pryderon tebyg eu cyflwyno gan Gomisiynydd Plant Cymru a oedd yn teimlo y byddai’n well dileu’r geiriau “yn benodol”[88].

104. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrth y Pwyllgor:

> “I do not really follow the logic of having that wording, given the helpful memorandum from the Minister. They seem to be slightly at odds, and confusion will result”[89].

105. Ychwanegodd y byddai cynnwys y geiriau hynny, yma, yn golygu y byddai angen cynnwys rhai asiantaethau yn benodol, a hefyd, byddai cynnwys un neu ddau o asiantaethau yn gallu gadael eraill yn rhydd i ddilyn eu trywydd eu hunain[90].

---

[83] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Memorandwm oddi wrth y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Y Gyfraith Gyfansoddiadol: Datganoli, Cymru, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cyrmu (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009,* Cynnig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynglŷn â Gofalwyr
[84] Cofnod y Trafodion, paragraff 93, 4 Chwefror 2009
[85] ibid, paragraff 95
[86] ibid, paragraff 96
[87] Cofnod y Trafodion, paragraff 98, 4 Chwefror 2009
[88] CO16, Tystiolaeth ysgrifenedig
[89] Cofnod y Trafodion, paragraff 58, 11 Chwefror 2009
[90] ibid

106. Yn yr un modd, dywedodd y Gymdeithas Syndrom Down yr hoffent weld telerau'r Gorchymyn arfaethedig yn cael eu hymestyn yn benodol i gyfeirio at wasanaethau eraill ac awgrymodd y gallai'r Gorchymyn arfaethedig gael ei ailddrafftio fel a ganlyn:

> "This matter includes, but is not limited to, social care services to help carers"[91].

107. Fodd bynnag, roedd cytundeb gyffredinol ymysg y tystion na fyddai rhestru'r holl asiantaethau y dylai fod yn ddyletswydd arnynt i gydweithredu fod yn ddewis ymarferol. Cytunwyd y byddai hyn yn peri dryswch, yn lleihau cwmpas y Gorchymyn arfaethedig ac o bosibl yn eithrio rhai asiantaethau perthnasol.

108. Dywedodd Cynghrair Cynhalwyr Cymru wrthym y byddai'n well ganddynt:

> "…a short list and a catch-all phrase such as, "and other appropriate bodies"[92].

109. Ychwanegwyd bod angen i'r drafftio:

> "…to be broad enough to include all the public bodies on which the Assembly has the power to impose duties because, over time, it may become apparent that a body that we have not thought about at this point might be relevant"[93].

*Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

110. Yn ei thystiolaeth, eglurodd y Dirprwy Weinidog yr ystod o gyrff y gallai dyletswydd gael ei roi arnynt pe bai'r Cynulliad yn ennill y pwerau y gwneir cais amdanynt o dan y Gorchymyn arfaethedig. Dywedodd:

> "It is envisaged that the bodies that would have duties imposed upon them by a future measure made under this proposed LCO would include local authorities, local education authorities, local housing authorities, and NHS trusts or bodies"[94].

111. Wrth ymateb i'r pryderon a gododd Comisiynydd Plant Cymru, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym mai nod y drafftio oedd er mwyn sicrhau mwy o fanylder yn hytrach na chreu dryswch[95]. Ychwanegodd nad oes amheuaeth bod y mater yn cynnwys elfennau ar wahân i wasanaethau cymdeithasol i helpu gofalwyr[96].

[91] CO7, Tystiolaeth ysgrifenedig
[92] Cofnod y Trafodion, paragraff 63, 11 Chwefror 2009
[93] ibid
[94] ibid, paragraff 35, 28 Ionawr 2009
[95] ibid, paragraff 14, 25 Chwefror 2009
[96] ibid

112. Ategodd y Dirprwy Weinidog hefyd yr angen am gyfeiriad penodol at ofal cymdeithasol neu bydd cwestiynau'n codi ynglŷn ag ehangder y Gorchymyn arfaethedig. Eglurodd mai'r bwriad o gyfeirio'n benodol at wasanaethau gofal cymdeithasol oedd er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigon llydan yn hytrach na chyfyngu arni[97].

113. Fodd bynnag, eglurodd y Dirprwy Weinidog ymhellach y byddai rhestru sefydliadau penodol yn arwain at y perygl o eithrio rhai. Dywedodd:

> "I am happy that the proposed LCO as drafted embraces a sufficiently wide range of bodies, and not just that of a social care nature. The detail is best left to be covered in the development of any future measures"[98].

114. O ran awgrym Comisiynydd Plant Cymru i ddileu'r ymadrodd "yn benodol" dywedodd y Dirprwy Weinidog nad oedd yn credu y byddai hynny'n ddefnyddiol[99]. Dywedodd wrthym hefyd:

> "We believe that a specific reference to social care services is required here; otherwise, this might raise questions about the breadth of the proposed LCO. Matter 15.5 in Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006 refers specifically to "social care services", but the intent is not to restrict the provision, rather to ensure that it is wide enough"[100].

115. O ran yr ailddrafftio arfaethedig a awgrymwyd gan Gymdeithas Syndrom Down, rhoddodd y Dirprwy Weinidog wybodaeth a chyngor ychwanegol i ni. Dywedodd y byddai'r newid a awgrymwyd yn cyflawni'r un diben â'r geiriad presennol a chytunodd fod y geiriad yn haws i'w ddeall[101]. Ychwanegodd:

> "If we are to make this change, then we shall also need to amend the existing Matters in Schedule 5 to ensure consistency and to avoid any suggestion that something different is meant in those other matters where "in particular" has already been used. Although "in particular" has continued to be used in the newly proposed LCOs to ensure consistency with existing provisions, those provisions in other proposed LCOs could also be amended to fit with this different approach"[102].

116. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y bydd angen iddi gael cyngor pellach ar ddichonolrwydd y newidiadau angenrheidiol a'i bod yn bosibl y bydd angen trafod rhinweddau'r newid posibl hwn gyda'i chyd-Weinidogion.

*Ein barn ni*

---

[97] Cofnod y Trafodion, paragraff 14, 25 Chwefror 2009
[98] ibid, paragraff 24
[99] ibid, paragraff 19
[100] ibid, paragraff 14
[101] Llythyr gan Gwenda Thomas AC, Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, 5 Mawrth
[102] ibid

**117. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth a gyflwynwyd gan dystion o ran ystyr gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y Gorchymyn arfaethedig ond rydym yn fodlon â'r geiriad fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn cefnogi bwriad y Dirprwy Weinidog i ystyried ymhellach y geiriad arall a gynigiwyd gan Gymdeithas Syndrom Down.**

## 5. Materion Eraill

### Craffu ar y mesur cyn y broses ddeddfu gan bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi

118. Wrth baratoi ei adroddiad ar y Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Rheol Sefydlog 22.21, rhaid i'r Pwyllgor, cymaint ag y mae'n ymarferol bosibl, ystyried unrhyw argymhelliad ar y Gorchymyn arfaethedig a wneir gan unrhyw bwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi neu unrhyw gydbwyllgor dau Dŷ'r Senedd.

119. Rydym wedi cael ar ddeall fod Pwyllgor Dethol Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin yn craffu ar y Gorchymyn arfaethedig cyn y broses ddeddfu ac nad yw wedi cyflwyno adroddiad eto.

120. Fodd bynnag, er nad ydym wedi gallu ystyried eu canfyddiadau, rydym wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â gwaith a chynnydd y Pwyllgor Dethol Materion Cymreig.

**Atodiad 1**

**MEMORANDWM ODDI WRTH Y DIRPRWY WEINIDOG DROS IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL: DATGANOLI, CYMRU**

# Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009

# Cynnig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynglŷn â Gofalwyr

**Rhagarweiniad**

1. Mae'r Memorandwm hwn wedi'i baratoi a'i osod gerbron yn unol â Rheol Sefydlog (RhS) 22.14. Mae'n gosod y cefndir i'r darpariaethau yn y cynnig amgaeedig gan y llywodraeth am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) a fyddai'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Fe'i gosodir gerbron yn unol â RhS 22.13 ac mae'n esbonio cwmpas y pŵer y gwneir cais amdano.
2. Ceir cyd-destun cyfansoddiadol y cais hwn yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”) a pholisi Llywodraeth y DU. Dangosodd Papur Gwyn Llywodraeth y DU, “Trefn Lywodraethu Well i Gymru”, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2005 ymrwymiad Llywodraeth y DU i wella pwerau deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel sefydliad a etholwyd yn ddemocrataidd gyda'i weithdrefnau craffu manwl ei hun.
3. Mae adran 95 o Ddeddf 2006 yn rhoi pŵer i'w Mawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, i roi'r cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu drwy Fesur Cynulliad ar faterion penodedig. Caniateir i'r materion hyn gael eu hychwanegu at Feysydd o fewn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Caiff Mesurau Cynulliad wneud unrhyw ddarpariaeth y gellid ei gwneud drwy Ddeddf Seneddol (ac felly gallant addasu deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes a gwneud darpariaeth newydd), o ran materion, yn ddarostyngedig i'r terfynau y darperir ar eu cyfer yn Rhan 3 o Ddeddf 2006. Cyfeirir at Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan Adran 95 o Ddeddf 2006 fel Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) yn y memorandwm hwn.
4. Caniateir i faterion gael eu mewnosod yn y meysydd sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006, naill ai drwy Ddeddf Seneddol neu Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, a gymeradwywyd gan y Cynulliad a dau Dŷ'r Senedd. Mae'r ail lwybr yn galluogi'r Cynulliad i gychwyn y broses ar gyfer rhoi cymhwysedd o'r fath, drwy Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol.

   5. Byddai'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol a gynigir yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ym maes Lles Cymdeithasol (maes 15 yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006).

**Y cefndir**

6. Mae gofalwyr wrth galon teuluoedd a chymunedau'r 21fed ganrif. Mewn cymdeithas sy'n newid mae'r rhan fwyaf o bobl yn byw'n hwy, mae llawer yn magu anhwylderau hirdymor ac mae gan y mwyafrif llethol ddyheadau sydd ar gynnydd am ansawdd eu bywydau. O ganlyniad, bydd nifer cynyddol o bobl yn cael eu hunain yn cyflawni cyfrifoldebau gofalu.

7. Mae llawer o bobl, a merched yn bennaf, bellach yn cydbwyso gwaith, gofal plant a gofalu am riant sy'n mynd yn hen. Mae nifer cynyddol o bobl hŷn yn aml yn gofalu am eu partner tra bônt yn darparu gofal plant i'w wyrion a/neu eu hwyresau ac mae rhieni plant y mae arnynt anghenion cymhleth yn gwybod y byddant yn ofalwyr "gydol oes". Bydd y newid cadarnhaol i fyw'n annibynnol a chael gofal yn y cartref, y symud i ffwrdd o sefydliadu, yn parhau i ofyn am gyfraniad mwy gan ofalwyr. Yr un pryd mae teuluoedd bellach wedi'u gwasgaru'n aml ar draws y byd, mae parau yn brwydro i gadw cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith ac mewn cymdeithas sy'n heneiddio mae rhai pobl hŷn yn cael eu gadael ar eu pennau eu hunain gydag ychydig o gymorth, neu ddim o gwbl, gan eu teulu neu eu cyfeillion.

8. Ar hyn o bryd mae gofalwyr nad ydynt yn cael eu talu yn darparu oddeutu 70% o'r gofal yn y gymuned ac mae'r newidiadau demograffig sydd wedi'u darogan yn awgrymu y bydd y gronfa o ofalwyr posibl, o'u cymharu â'r niferoedd y bydd arnynt angen gofal, yn debyg o leihau dros y tymor canolig. Gan fod disgwyl i fywydau'r rhai sydd angen gofal ymestyn yn hwy, rhaid peidio â rhagdybio y bydd eu gofalwyr yn gallu parhau i gyflawni eu rôl ofalu dros gyfnod hwy heb gymorth a chefnogaeth. Mae arwyddion clir hefyd fod y gofal anffurfiol y mae pobl hŷn yn ei gael gan eu plant sy'n oedolion yn annhebyg, oherwydd tueddiadau demograffig sylfaenol, o fynd bob yn gam â'r galw, a hwnnw'n duedd sy'n cael ei adlewyrchu ledled y DU (gweler, er enghraifft y ddogfen: *Informal Care for Older People Provided by their Adult Children: Projections of Supply and Demand to 2041 in England*, Papur Trafod 2515 Uned Ymchwil y Gwasanaethau Cymdeithasol Personol) ond mae'r sefyllfa'n debyg o fod yn arbennig o ddifrifol yn y rhannau hynny o Gymru lle mae'r ddibyniaeth bresennol ar ofalwyr anffurfiol ar ei huchaf.

9. Mae llawer o'r materion sy'n effeithio ar ofalwyr a gwasanaethau gofalwyr yng Nghymru yn gyffredin ledled y DU, ac wrth lunio'r cynnig hwn mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi'r ymgynghori eang a wnaed ar draws y DU fel rhan o ddatblygu strategaeth llywodraeth y DU, sef "*Carers at the heart of 21st century families and communities*", a'r dystiolaeth a'r dadansoddi sy'n cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad hwn. Er hynny, mae Cyfrifiad 2001 ar gyfer Cymru a Lloegr yn dangos bod gan Gymru gyfran uwch o ofalwyr nag unrhyw ranbarth yn Lloegr (11.7 y cant neu 341,000 o ofalwyr), y gyfradd uchaf o bobl â salwch hirdymor cyfyngus (23.3 y cant)

a lefel salwch parhaol ac anabledd parhaol yn y boblogaeth 16-74 oed sy'n economaidd anweithgar, a'r gyfradd honno o 9.2 y cant yn uwch na chyfradd unrhyw ranbarth yn Lloegr. Mae'r ffigurau hun ar eu pennau eu hunain yn awgrymu y gall dull cyfannol unigol o weithredu fod yn angenrheidiol ac yn briodol i fynd i'r afael â dwysedd y materion hyn yng Nghymru.

10. Yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r enw *Strategaeth Gofal Cymru: Cynllun Gweithredu 2007* cydnabuwyd yr angen i leddfu ar effeithiau'r newidiadau demograffig hyn, a rhagwelwyd y gallai'r newidiadau hyn, gan gynnwys tueddiadau tuag at deuluoedd mwy gwasgaredig, ofyn am ystod o fesurau a fyddai'n cael eu llunio i gefnogi gofalwyr yn eu rôl ofalu a'u helpu i gynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Adolygir Cynllun Gweithredu 2007 yn 2009. Bydd canlyniadau'r adolygiad hwn o strategaeth Cymru yn sylfaen i'r cynigion manwl ar gyfer mesurau.

11. Mae'r fframwaith deddfwriaethol cyfredol mewn perthynas â gofalwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar bwerau a dyletswyddau awdurdodau statudol. Mae'n cynnwys:

- **Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986**

  Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried gallu'r gofalwr i ddarparu, neu i barhau i ddarparu, gofal wrth iddynt benderfynu pa wasanaethau i'w darparu i'r person anabl.

- **Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995**

  Mae hon yn cynnwys y cyfrifoldebau statudol craidd ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud asesiad o allu gofalwr i ddarparu gofal ac i barhau i'w ddarparu, os yw'r gofalwr yn gofyn am hynny, adeg asesu'r person y mae’n gofalu amdano.

- **Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000**

  Mae hon yn estyn darpariaethau Deddf 1995 i alluogi awdurdod lleol i ymgymryd ag asesiad ar wahân o anghenion gofalwr ac i gyflenwi gwasanaethau (neu daliadau uniongyrchol) yn uniongyrchol i ofalwyr ar ôl asesiad.

- **Deddf Gofalwyr (Cyfleoedd Cyfartal) 2004**

  Mae hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hysbysu gofalwyr o'u hawl i gael asesiad, ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt bwyso a mesur yn eu hasesiadau o ofalwyr a yw'r gofalwr yn gweithio neu'n ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu unrhyw weithgaredd hamdden. Mae'n darparu hefyd ar gyfer cydweithredu

gwell rhwng asiantaethau statudol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i ofalwyr.

- **Deddf Gwaith a Theuluoedd 2006**

  Daeth hon i rym yng Nghymru yn Ebrill 2007. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr ystyried ceisiadau oddi wrth bobl sydd â chyfrifoldebau gofalu am gael gweithio'n hyblyg.

- **Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008**

  Bydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau digonol i ddarparu seibiannau byr ar gyfer gofalwyr plant anabl.

Yn ychwanegol, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rychwant o bwerau i arolygu a rheoleiddio gwasanaethau awdurdodau lleol a dyroddi canllawiau statudol mewn cysylltiad â hwy o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau Cymunedol) 2003. Mae ganddi bwerau hefyd i gyfarwyddo'r GIG o dan Ddeddf Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

12. Er gwaethaf y fframwaith presennol hwn o ddeddfwriaeth a chanllawiau, nodwyd drwy ymgynghoriadau â gofalwyr, sefydliadau gofalwyr ac eraill fod bylchau yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu a'r rheini'n fylchau nad oes modd mynd i'r afael â hwy ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys:

    a. pryderon bod asesiadau gofalwyr a gwasanaethau i ofalwyr yn amrywio'n fawr ac yn fylchog iawn ledled Cymru. Tanlinellwyd y pryder hwn mewn adroddiad a gynhyrchwyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym Mehefin 2008 [*On the way up?* Dangosyddion Perfformiad Gofal Cymdeithasol i Oedolion yng Nghymru 2006-07]. Mae'r math o wasanaethau sy'n cael eu darparu i ofalwyr yn cynnwys y gwasanaethau canlynol ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt: gofal seibiant, rhwydweithiau cefnogaeth cymheiriaid, cefnogaeth i gael cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a gweithgareddau hamdden ac addysg, canolfannau dydd, sesiynau codi ymwybyddiaeth gyda phroffesiynolion; gwasanaethau gwybodaeth, gwasanaethau hyfforddi a gwasanaethau cynnal, taliadau uniongyrchol a gwasanaethau eirioli.

    b. yr angen am ymdrechu o'r newydd i ganfod gofalwyr, am ddarpariaeth ehangach o ran gwybodaeth i ofalwyr, ymgysylltu gwell gan y GIG â gofalwyr fel partneriaid yng ngwaith darparu gofal [Adroddiad Uwchgynhadledd y Gofalwyr, Ebrill 2005]

    c. tystiolaeth y gall presenoldeb gofalwr nad yw'n cael ei dalu ar aelwyd leihau'r tebygolrwydd y câi'r gofalwr ei asesu ar gyfer

gwasanaethau â blaenoriaeth gan yr awdurdod lleol. Yr hyn sy'n baradocs yw bod hynny'n lleihau argaeledd gwasanaethau i'r person sy'n derbyn gofal (ac o ganlyniad yn cynyddu'r baich ar y gofalwr), ac argaeledd gwasanaethau cydbwyso, megis gofal seibiant, sydd o fudd i'r gofalwr. [Gweler, er enghraifft, "*Analysis of the Costs of Domiciliary and Personal Care in Wales: Some Direct Evidence*": Bell & Dawson: Mawrth 2008]

d. arwyddion bod llawer o ofalwyr ifanc yn dal i ysgwyddo baich gofalu amhriodol, a bod hynny'n cael effaith fesuradwy ar eu hiechyd wrth iddynt dyfu'n oedolion ifanc [gweler er enghraifft Arolwg Iechyd Cymru 2005/06: Iechyd Gofalwyr, 15/05/08]. Yng nghanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru am Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 cynghorwyd "…y dylai cefnogaeth [i ofalwyr ifanc] gael ei hanelu'n bennaf at helpu unrhyw oedolion anabl ac oedolion eraill a chanddynt gyfrifoldeb rhiant i gyflawni eu rôl fel rhieni a symud cyfrifoldebau amhriodol oddi ar blant." Hefyd "Ni chaiff unrhyw wasanaethau o'r fath a ddarperir eu cynllunio i'w cefnogi yn eu rôl ofalu ond yn hytrach i sicrhau na fyddant yn ymgymryd â rôl ofalu sy'n amhriodol." Serch hynny, mae'r pwyslais parhaol ar wasanaethau i gefnogi gofalwyr ifanc yn eu rôl ofalu, er ei fod yn cael croeso gan y gofalwyr ifanc eu hunain, yn awgrymu nad ydym wedi llwyddo eto i weithredu yn ôl dull cydgysylltiedig y mae ei angen ar draws gwasanaethau cymdeithasol i oedolion ac i blant, a'r GIG.

13. Mae'n amlwg nad yw'r fframwaith cyfredol o ran deddfwriaeth a chanllawiau yng Nghymru wedi bod yn ddigon i sicrhau bod amcanion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch gofalwyr yn cael y flaenoriaeth angenrheidiol, er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â'r bylchau a'r anghysondebau hyn yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Yr oedd rhaglen lywodraethu Llywodraeth y Cynulliad, o'r enw "Cymru'n Un" yn cynnwys ymrwymiad felly i lunio deddfwriaeth newydd ar ofalwyr yn hytrach na dibynnu ar y dulliau atgyfnerthu presennol yn unig, megis mesurau perfformiad ac arolygu, cymelliadau ariannol neu bwerau cyfarwyddo. Mae'r cynnig hwn am gael cymhwysedd deddfwriaethol yn deillio o'r angen i gefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan ofalwyr i ddarparu gofal ac i hyrwyddo llesiant gofalwyr fel y'i nodwyd uchod. Yn benodol, yr ydym yn rhagweld bod angen gwella bywydau gofalwyr yn y meysydd allweddol canlynol:

a. sicrhau bod gan ofalwyr yr wybodaeth gywir ar yr adeg gywir i'w cefnogi yn eu rôl ofalu. Tanlinellodd *Strategaeth Cynhalwyr Cymru – Cynllun Gweithredu* (2000) fod angen darparu i ofalwyr wybodaeth hawdd ei chael, perthnasol a ffeithiol gywir, yn ogystal â chydnabod yr angen am olwg tymor hwy ar anghenion gofalwyr o ran gwybodaeth. Byddai'r math o wybodaeth y gall fod angen amdani ar ofalwyr yn cynnwys gwybodaeth am fudd-daliadau, darpariaethau ym maes cyflogaeth gan gynnwys gweithio oriau

hyblyg, yr hawl i gael asesiad o anghenion, y swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol sydd ar gael iddynt, cynllunio gofal ar gyfer y person sy'n derbyn gofal, rheoli ei feddyginiaethau, ei drafod a'i godi'n ddiogel a materion eraill sy'n ymwneud â gofalu amdano.

b. sicrhau bod cymorth a chefnogaeth sy’n brydlon, priodol, ymarferol ac emosiynol yn cael eu rhoi i ofalwyr i'w cynnal yn eu rôl ofalu ac i'w helpu hefyd i wireddu eu huchelgeisiau personol i gael defnyddio cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Byddai hynny’n cynnwys rhoi hawl iddynt gael seibiau priodol o'u cyfrifoldebau gofalu**.**

c. sicrhau bod asiantaethau statudol (sef yr asiantaethau hynny y sonnir amdanynt yn adran 3(5) o Ddeddf Gofalwyr (Cyfleoedd Cyfartal) 2004 (p.15) yn ymgysylltu'n briodol â gofalwyr fel partneriaid yng ngwaith darparu gofal gan eu cynnwys ar bob lefel yn y broses o asesu, cyflawni a gwerthuso trefniadau gofal unigolyn.

**Cwmpas**

14. Cynigir bod y Mater yn cael ei fewnosod o dan Faes 15: Lles Cymdeithasol yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i alluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar y materion hyn ar ffurf Mesur Cynulliad. Ystyr y gair “gofalwyr” yn y cyd-destun hwn yw gofalwyr unigolion o unrhyw oedran sy'n derbyn gofal, ond yn achos unigolion sy'n gofalu am blant, mae'n cwmpasu plant â nam corfforol neu feddyliol yn unig. Ni fyddai'r Gorchymyn yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu mewn perthynas â phersonau sy'n darparu gofal yn rhinwedd contract cyflogi neu gontract arall neu fel gwirfoddolwr, ac ni fyddai'r Gorchymyn yn rhoi pŵer i'r Cynulliad newid hawliau cyflogaeth gofalwyr.

15. Nid yw'r diffiniad o ofalwr yn y mater hwn yn adlewyrchu'n union yr un a roddir yn Neddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 yn yr ystyr nad yw'n cynnwys unrhyw gyfyngiad o ran oedran. Bydd hynny’n sicrhau bod y Cynulliad yn gallu deddfu i hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc sy'n cyflawni cyfrifoldebau gofalu, yn ogystal â llesiant gofalwyr hŷn. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd eisoes mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant; personau sy'n gofalu am blant, neu sydd ar fin gofalu amdanynt; a phobl ifanc. Bydd y mater hwn yn galluogi'r Cynulliad i wneud Mesur i ehangu'r ddarpariaeth y tu hwnt i'r hyn sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal cymdeithasol yn unig ac yn darparu fframwaith unigol ar gyfer ystod o wasanaethau i gefnogi gofalwyr.

16. Byddai'r Mater yn galluogi'r Cynulliad i sicrhau bod y gwaith y mae gofalwyr yn ei wneud i ddarparu gofal yn cael ei gefnogi a bod eu llesiant yn cael ei hyrwyddo. Er enghraifft, byddai'n caniatáu i ofyniad gael ei osod ar asiantaethau perthnasol yn y sector cyhoeddus i feithrin strategaethau ynghylch gwybodaeth i ofalwyr mewn modd tebyg i ddeddfwriaeth yr Alban yn y maes hwn; yn caniatáu iddynt gydweithio'n effeithiol i gefnogi'r gofal sy'n cael ei ddarparu gan ofalwyr ac i hyrwyddo llesiant y gofalwyr hynny (yn enwedig llesiant gofalwyr ifanc); ac yn caniatáu i welliannau

gael eu gwneud hefyd i'r ffordd y mae gofalwyr yn cael gafael ar ofal amgen (gofal seibiant) gyda darpariaeth ar gyfer hawl i gael seibiant ar gyfer grwpiau a ddiffinnir. Mae'r mater yn nodi ei fod yn cynnwys, "yn benodol", ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Golygai hyn y gallai Mesurau Cynulliad a gâi eu gwneud drwy ddibynnu ar y mater hwn wneud darpariaethau na fyddant, wrth iddynt hyrwyddo llesiant gofalwyr a chefnogi'r gofal sy'n cael ei ddarparu ganddynt, wedi'u cyfyngu'n unig i wasanaethau gofal cymdeithasol: megis darpariaeth i sicrhau bod cyrff iechyd yn cymryd buddiannau gofalwyr i ystyriaeth, er enghraifft, wrth wneud trefniadau ar gyfer apwyntiadau, trefniadau rhyddhau, a chasglu presgripsiynau ar gyfer y person sy'n derbyn gofal.

17. Mae'r diffiniad o'r term "llesiant" sydd i'w ddefnyddio mewn perthynas â'r mater yr un fath â'r un sydd wedi'i nodi yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008. Mae'r diffiniad o'r term "gwasanaethau gofal cymdeithasol" yn y Gorchymyn hwnnw i'w ddiwygio yn rhinwedd y Gorchymyn hwn er mwyn cynnwys darparu "gwybodaeth". Er hwylustod cyfeirio, mae'r diffiniadau i'w cael yn Atodiad A hefyd.

18. Prif ddiben yr GCD hwn felly yw rhoi pŵer i'r Cynulliad wneud Mesurau Cynulliad o dan Ran 3 o Ddeddf 2006 a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cynulliad Cymru wella gwasanaethau i ofalwyr a chyflawni'r ymrwymiad a roddwyd yn y rhaglen o'r enw "Cymru'n Un".

Eithriadau

19. Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn gwneud diwygiadau technegol hefyd i Adran 94 o Ddeddf 2006 ac Atodlen 5 iddi. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008 yn rhestru eithriadau i faterion mewn tabl, ac mae'r materion y mae pob eithriad yn ymwneud â hwy wedi'u nodi gyferbyn â phob un. Effaith y diwygiadau technegol i Atodlen 5 sydd wedi'u nodi ym mharagraff 3 o'r Gorchymyn a gynigir yw cymhwyso'r un eithriadau i bob mater yn Rhan 1 o Atodlen 5. Mae'r tabl eithriadau wedi'i ddisodli gan restr o eithriadau, sydd wedi'u nodi mewn paragraff A1 newydd yn Rhan 2 o Atodlen 5. Mae adran 94 o Ddeddf 2006 wedi'i diwygio i'w gwneud yn glir na fyddai darpariaeth mewn Mesur Cynulliad o fewn cymhwysedd y Cynulliad os yw'n dod o dan unrhyw un o'r eithriadau a restrir yn y paragraff hwnnw. Mae hyn yn gwireddu mewn modd mwy sicr yr amcan y dylai'r eithriadau hyn fod yn gymwys ym mhob achos lle maent yn berthnasol ac yn gwneud Atodlen 5 yn fwy eglur a haws ei deall drwy gymhwyso'r eithriadau hyn i bob mater sydd wedi'i restru ynddi.

20. Bydd yn bosibl ychwanegu eithriadau newydd at y rhestr (gan gynnwys o dan feysydd eraill) pan fo materion newydd yn cael eu hychwanegu a'r rheini'n peri iddi fod yn angenrheidiol cael eithriadau pellach a phan fo bwriad i'r eithriadau pellach hynny fod yn gymwys yn gyffredinol. Bydd yn dal yn bosibl pennu eithriad i fater unigol yn y dyfodol hefyd, pan fo'n ofynnol ei gael fel rhan o'r diffiniad o'r mater hwnnw yn unig.

21. Nid yw'r Gorchymyn arfaethedig yn ychwanegu unrhyw eithriadau newydd, gan nad angen unrhyw eithriadau ychwanegol ar y mater sy'n cael ei ychwanegu. Er hynny, bydd yr eithriadau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys y rhai ynglŷn â nawdd cymdeithasol a budd-daliadau eraill, yn gymwys i'r mater a fewnosodir gan Erthygl 2 o'r Gorchymyn arfaethedig.

**Terfynau daearyddol unrhyw Fesur Cynulliad**

22. Mae Adran 94 o Ddeddf 2006 yn gwahardd unrhyw Fesur Cynulliad rhag cael effaith ac eithrio o ran Cymru. Mae'n darparu na fydd darpariaeth mewn Mesur Cynulliad yn gyfraith i'r graddau y mae y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae darpariaeth y tu allan i gymhwysedd os bydd yn gymwys ac eithrio o ran Cymru, neu os bydd yn rhoi, gosod, addasu neu dynnu swyddogaethau y gellir eu harfer ac eithrio o ran Cymru (neu'n rhoi pŵer i wneud hynny). Mae eithriadau cyfyngedig ar gyfer mathau penodol o ddarpariaethau atodol, er enghraifft, darpariaeth sy'n briodol i wneud darpariaethau'r Mesur yn effeithiol, darpariaeth sy'n ei gwneud yn bosibl i ddarpariaethau'r Mesur gael eu gorfodi a darpariaeth sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall.

23. Mae'r cyfyngiad ynghylch swyddogaethau ac eithrio o ran Cymru yn golygu na fyddai'r Cynulliad yn gallu rhoi swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â Chymru i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol Cymru nac unrhyw awdurdod cyhoeddus arall.

**Swyddogaethau Gweinidog y Goron**

24. Nid yw'r Gorchymyn arfaethedig hwn ynddo'i hun yn ceisio addasu na thynnu oddi ar unrhyw un o Weinidogion y Goron unrhyw swyddogaethau sydd ganddo. Yn rhinwedd Rhan 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, ni chaiff y Cynulliad drwy Fesur newid swyddogaethau Gweinidogion y Goron heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. O ran unrhyw gynigion yn y dyfodol a allai effeithio ar swyddogaethau Gweinidog y Goron, ymgynghorir ag Adrannau priodol Llywodraeth y DU a cheisir dod i gytundeb am unrhyw gynigion yn y dyfodol i newid neu addasu'r swyddogaethau hynny.

**Y Casgliad**

25. Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig y dylid estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn a gynigir gan y Llywodraeth ac y mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud ag ef.

**Gwenda Thomas**
**Y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Rhagfyr 2008**

**Atodiad A**

**Dehongli**

ystyr "gwasanaethau gofal cymdeithasol" ("*social care services*") yw unrhyw un o'r canlynol a ddarperir mewn cysylltiad â llesiant unrhyw berson: gwasanaethau gofal preswyl neu ddibreswyl; gwasanaethau gwybodaeth, cynghori, cwnsela neu eirioli; cymorth ariannol neu unrhyw gymorth arall;

ystyr "llesiant" ("*well-being*"), mewn perthynas ag unigolion, yw llesiant i'r graddau y mae'n ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol—

(a) iechyd a llesiant emosiynol;

(b) amddiffyniad rhag niwed ac esgeulustod;

(c) addysg, hyfforddiant a hamdden;

(d) y cyfraniad at gymdeithas a wneir ganddynt;

(e) llesiant cymdeithasol ac economaidd;

(f) sicrhau eu hawliau.

**Atodiad 2**

**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif. 3**
**Legislation Committee No. 3**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

19 Ionawr 2009

Annwyl Gyfaill

**Ymgynghoriad - Pwyllgor Deddfwriaeth Parhaol Rhif 3 -** *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009* **ynglŷn â gofalwyr**

Ar 8 Rhagfyr 2008, gosododd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol)(Lles Cymdeithasol) 2009 ('y mesur arfaethedig') a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad yn unol â Rheolau Sefydlog 22.13 a 22.14.

Cyfeiriwyd y Gorchymyn arfaethedig wedi hynny at Bwyllgor Deddfwriaeth Parhaol Rhif 3 i gael ei ystyried yn fanwl. Yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2009, cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl canlynol -

Ystyried:

- Egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig ac a ddylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad yn y maes a nodir ym *Mater 15.9*;

- Telerau'r Gorchymyn arfaethedig ac, yn benodol, a ydynt wedi eu diffinio'n rhy eang neu'n rhy gul.

Prif ddiben y Pwyllgor yw ystyried a ddylai'r Cynulliad gael y pŵer, mewn egwyddor, i ddeddfu yn ôl Mesur yn y maes a nodwyd gan y Gorchymyn arfaethedig, sef cefnogi darpariaeth gofal gan ofalwyr a hybu lles gofalwyr. Fodd bynnag, nid yw o fewn cylch gwaith y Pwyllgor i ystyried y modd penodol y dylai'r pŵer hwnnw gael ei ddefnyddio os caiff ei roi. Felly, bydd y pwyllgor yn osgoi cymryd rhan mewn trafodaethau manwl ar Fesurau arfaethedig, adolygu polisïau sydd eisoes yn bodoli yn y maes hwn a dyblygu gwaith a wnaeth y pwyllgorau pwnc blaenorol eisoes.

Ceir copi o'r Gorchymyn arfaethedig a'i Femorandwm Esboniadol yn **Atodiad 1**. Gellir gweld copi electronig o'r dogfennau hyn ynghyd â gwybodaeth am y broses ddeddfwriaethol a manylion y Pwyllgor ar http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation.htm
Ysgrifennaf atoch i'ch gwahodd i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor er mwyn helpu ei drafodaethau. Wrth baratoi eich cyflwyniad, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn ystyried y canlynol:

1. Beth yw eich barn ar yr egwyddor gyffredinol y dylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad yn y maes a nodir ym Mater 15.9?

2. Beth yw eich barn ar delerau'r Gorchymyn arfaethedig, e.e. a ydynt wedi eu diffinio'n rhy gul neu'n rhy eang?

3. A yw'r diffiniad o ofalwr yn y Gorchymyn arfaethedig yn briodol? Os nad yw, sut y dylai'r Gorchymyn arfaethedig gael ei ailddrafftio a pham?

4. A ydych o'r farn y byddai'r Materion a eithrir, ynglŷn â maes 15, yn effeithio ar effeithiolrwydd unrhyw Fesurau arfaethedig a gaiff eu cyflwyno yn y dyfodol o dan Fater 15.9? Os felly eglurwch pam.

   *(Sylwer: Cyfeirir at y Materion a eithrir o dan y pennawd 'Lles Cymdeithasol' (maes 15 o Ran 1) ar dudalen 3 o'r Gorchymyn arfaethedig. Nid oes gan y Cynulliad unrhyw bŵer i ddeddfu ynglŷn â Materion a eithrir.)*

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad i legislationoffice@wales.gsi.gov.uk gan nodi'r pennawd *Ymgynghoriad Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Gofalwyr* ym mlwch pwnc yr e-bost. Os byddai'n well gennych anfon eich cyflwyniad ar bapur, dylech ei anfon at Ruth Hatton, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, Y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd CF99 1NA.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau yw dydd Gwener 13 Chwefror 2009. Ni fydd yn bosibl ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn. Fodd bynnag, buaswn yn falch o dderbyn cyflwyniadau cyn y dyddiad hwn os yw'n bosibl er mwyn galluogi'r Pwyllgor i wneud cynnydd ar ei waith o graffu ar y Gorchymyn arfaethedig.**

Wrth baratoi eich cyflwyniad, cofiwch ystyried y pwyntiau canlynol:

- Dylai eich ymateb fod mor gryno â phosibl. Defnyddiwch y teitl uchod wrth gyfeirio eich ymateb.
- Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus ar gael i'w gweld gan y cyhoedd ac fe allant hefyd gael eu gweld a'u trafod mewn cyfarfodydd pwyllgor. **Os nad ydych am i'ch ymateb neu'ch enw gael ei gyhoeddi mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny ar ddiwedd eich cyflwyniad.**
- Cofiwch nodi a ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn.
- Cofiwch nodi a ydych yn fodlon rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ai peidio.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Clerc, Fay Bowen (ffôn: 029 2089 8041) neu Ruth Hatton, y Dirprwy Glerc (ffôn: 029 2089 8019).



**Dr. Dai Lloyd AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Atodiad 3**

**Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

| **Cyfeirnod** | **Sefydliad** |
|---|---|
| C01 | Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu |
| C02 | Barnardo's Cymru |
| C03 | Cynghrair Cynhalwyr Cymru , Atodiad 1 |
| C04 | Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi |
| C05 | Croesffyrdd Cymru ac Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr |
| C06 | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| C07 | Cymdeithas Syndrom Down |
| C08 | Hafal |
| C09 | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| C10 | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| C11 | Cyngor Sir Ddinbych |
| C12 | Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion |
| C13 | Bwrdd yr Iaith Gymraeg |
| C14 | Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched Cymru |
| C15 | Sefydliad Astudiaethau Llywodraeth Leol |
| C16 | Comisiynydd Plant Cymru |

Gellir dod o hyd i'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-legislative-competence-orders/bus-leg-lco-no9-social_welfare/lc_3_-socwelfare_consultationletter/lc3_c_list_of_responses.htm

**Atodiad 4**

**Rhestr o dystiolaeth lafar**

| **Dyddiad:** | **Tystion:** |
|---|---|
| 28 Ionawr 2009 | Gwenda Thomas AC<br>Y Dirprwy Weinidog dros<br>Wasanaethau Cymdeithasol |
| 4 Chwefror 2009 | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br><br>Cymdeithas Cyfarwyddwyr<br>Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| 11 Chwefror 2009 | Comisiynydd Plant Cymru<br><br>Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br><br>Cynghrair Cynhalwyr Cymru |
| 25 Chwefror 2009 | Gwenda Thomas AC<br>Y Dirprwy Weinidog dros<br>Wwasanaethau Cymdeithasol |

Mae trawsgrifiadau'r sesiynau tystiolaeth lafar i'w gweld yn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-lc3-agendas.htm

**Gwenda Thomas AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**
**Oddiwrth yr Ysgrifennydd Dyddiadur**
**From the Diary Secretary**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref
LF/GT/0009/09

Dr Dai Lloyd AM
Committee Chair
Legislation Committee No. 3
National Assembly for Wales,
Cardiff Bay
CF99 1NA.

5 March 2009

Dear Dai

**The National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Social Welfare) Order 2009 relating to Carers**

At the Committee meeting on 25 February I agreed to write to the Committee with additional advice and information on a few matters:

1. The suggestion by the Down's Syndrome Association that in Article 2 of the proposed Order:

"This matter includes, in particular, social care services to help carers"

be replaced by:

"This matter includes, but is not limited to, social care services to help carers"

> I have been advised that the suggested drafting change does achieve the same effect as the current wording. I agree that it is a more accessible form of words.
>
> If we are to make this change, then we shall also need to amend existing matters in Schedule 5 to ensure consistency and to avoid any suggestion that something different is meant in those other matters where "in particular" has already been used. Although "in particular" has continued to be used in the newly proposed LCOs to ensure consistency with existing provisions, those provisions in other proposed LCOs could also be amended to fit with this different approach.
>
> I need to take further advice on the feasibility of making all these changes and then I may have to discuss the merits of this possible change with Ministerial colleagues.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn * Tel 029 2082 5111
Ffacs * Fax 029 2089 8635
DS.DeputyMinister.for.SS@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*    *Printed on 100% recycled paper*

2. Questions raised by Committee members in relation to young carers:

- patterns of care for young carers in relation to the terms 'regular and substantial' especially in relation to sibling care, and,
- support for a child caring for a sibling because a parent is unable to provide care

The issues we discussed related to whether the LCO as drafted covers children and young people who are looking after siblings who do not themselves have a physical or mental impairment. These children are not covered by the proposed LCO as it is presently drafted. I have taken the opportunity to discuss this further with the Carers Alliance, whom I met on 26 February. The Alliance's strong view was that the proposed order should not include children in this situation. Children and young people who are caring for siblings in these circumstances, whilst not covered by our proposed Carers LCO, may fall within the definition of children in need and be embraced by our Vulnerable Children Orderif there is a risk that the level of care they are providing is adversely affecting their health or development. The Alliance's views coincide with mine and I am therefore not considering making any amendments to the proposed Carers LCO in this respect.

On the question of whether care shared between children in a household is "regular" and "substantial", this has to be determined on the facts of individual cases taking into account the age, circumstances and impact on the children concerned. Again, if there is a risk that the care they provide is adversely affecting their health and development then they may be regarded as children in need irrespective of the outcomes of any assessment about the "regular" and "substantial" criteria.

G Thomas

**GWENDA THOMAS AM**
**Deputy Minister for Social Services**